**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 8 Mai 2018** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **23 Mai 2018** |

## PWNC

Eitem 6:GWERTHIANT CYN SALFE YSGOL ABERDYFI

## PENDERFYNIAD

Dirprwyo hawl i'r Uwch Reolwr Eiddo ddefnyddio pwerau Caniatad Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i werthu cyn safle Ysgol Aberdyfi yn uniongyrchol i Cartrefi Cymrunedol Gwynedd (CCG) am lai 'na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economiadd ac amgylcheddol. Clustnodi'r dderbyneb cyfalaf ar gyfer ariannu cyfraniad y Cygnor tuag at wella adeiladau ysgolion o dan Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn cau Ysgol Aberydfi yn 2013 mae safle'r hen ysgol wedi bod yn wag. Am gyfnod yn dilyn cau'r ysgol bu i'r adeilad gaen ei ddefnyddio fel Canolfan Ddydd i'r Henoed, ond yn dilyn cais aflwyddiannus y Cyngor Cymruned  i uwchraddio'r adilad, nid oedd modd i'r Cyngor Cymuned barhau gyda'u cynlluniau ar gyfer dyfodol yr adeilad.

Yn dilyn trafodaeth a'r Bartneriaeth Strategol Tai, mae cais wedi ei dderbyn gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd i brynu'r safle ar gyfer datblydiad preswyl a fyddai'n cynnwys canran uwch an'r hyn sy'n ofynol o dai fforddiadwy ar y safle. Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ffiniau Awdurdod Parc Cendedlaethol Cymru ond mae'r briff datbygu a baratowyd ganddynt yn datgan fod y safle yn addas ar gyfer datblygiad tai.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Nia Jeffreys gan ei bod yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ond nid oedd yn fuddiant  oedd yn rhagfarnu.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol ac yr aelod lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Bu i'r Aelod Lleol fynychu'r cyfarfod yn ogystal i roi ei farn.